# CYNGOR CYMUNED BETWS

## 2006 02 Chwefror Cofnodion

Cynhaliwyd cyfarfod misol y Cyngor yn Festri Capel Newydd, Y Betws ar Ddydd Mercher yr 8fed o Chwefror 2006 am 7.00 p.m.

YN BRESENNOL: Y Cynghorwr Loreen Lewis (Cadeirydd), Henadur D Arnallt James, y Cynghorwyr Carwyn James, Anne Sizmur, Delyth Richards, Graham Vaughan, Menna Roberts, Keith Rees, Peter Cowell a'r Cynghorwr Sir John D Evans

YMDDIHEURIADAU: Y Cynghorwyr Annette Price, E Audrey Jones a June Gunter.

DATGANIADAU GAN AELODAU AM FUDDIANNAU ARIANNOL A RHAI HEB FOD YN ARIANNOL.
Dim.

1. I DDARLLEN AC YSTYRIED COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR Y 11eg O IONAWR 2006.
Cadarnhaodd y Cynghorwr Delyth Richards ac eiliodd y Cynghorwr Carwyn James fod cofnodion cyfarfod yr 11eg o Ionawr 2006 yn gywir ac fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd.

2. MATERION YN CODI.
2.1 Noson Drosedd.
Dywedodd y Cynghorwr Anne Sizmur ei bod hi wedi ail drefnu'r noson drosedd ar gyfer yr 28ain o Fawrth 2006.
NODWYD: y pwynt uchod.

2.2 Torri Rheolaeth Cynllunio.
Dywedodd y Cynghorwr Anne Sizmur ei bod heb dderbyn ymateb pellach i'w llythyr ynglyn â'r uchod. Siaradodd gyda'r Adran Cynllunio, a chafodd gadarnhad bod ei ffeil wedi'i cholli.
NODWYD: y pwynt uchod.

2.3 Llwybr Troed 3/16.
Cadarnhaodd y Cynghorwr Peter Cowell bod y Swyddog Cynllunio yn edrych ar y mater ynglyn â llwybr troed 3/16.
NODWYD: y pwynt uchod.

2.4 Parc Betws.
Darllenodd y Clerc ymateb derbyniodd wrth Swyddog Amgylchedd Cyngor Sir Caerfyrddin. Awgrymodd y Cynghorwyr y canlynol fel mannau i roi cistiau sbwriel:-
Lon Waunddwfn, Ger y bont ar Maesybetws a Heol Waungron.
PENDERFYNWYD: bod y Clerc yn ysgrifennu at Swyddog Amgylchedd Cyngor Sir Caerfyrddin.

2.5 Goleuo'r Capel a'r Eglwys ym Metws.
Dywedodd y Cynghorwr Keith Rees ei fod wedi siarad gyda chynrychiolydd o'r Eglwys ynglyn â goleuadau ac iddo gael cadarnhad bod y goleuadau yn dal i fod yn yr Eglwys. Cytunodd y Cynghorwyr fod y Clerc yn ysgrifennu at Eglwys Llandybie i archwilio mewn i'r gost o bwrcasi goleuadau.
PENDERFYNWYD: bod y Clerc yn ysgrifennu at Eglwys Llandybie.

2.6 Meddygfa Heol Margaret.
Darllenodd y Clerc yr ymateb a dderbyniwyd wrth Feddygfa Heol Margaret.
NODWYD: y pwynt uchod.

2.7 Ardal Chwarae Heol Y Felin.
Darllenodd y Clerc ddau lythyr derbyniidd oddi wrth Gyngor Sir Caerfyrddin, un wrth yr Adran y Gyfraith a'r un arall wrth Adran y Parc yn cadarnhau fod clo wedi cael ei ddodi ar gatiau dwbl Ardal Chwarae Heol Y Felin. Penderfynwyd bod y Cynghorwr Graham Vaughan yn mynd i ymweld â'r parc i gadarnhau hyn.
NODWYD: y pwynt uchod.

3. GOHEBIAETH.
3.1 Derbyniwyd gohebiaeth gan y Cynghorwr Sir.
Dywedodd y Clerc wrth y Cynghorwyr ei bod wedi derbyn llythyr gan y Cynghorwr Sir yngly^n â Threfniadau Sefydlog Cyngor Cymuned y Betws. Awgrymodd y Cynghorwr Graham Vaughan fod y clerc yn cydnabod llythyr y Cynghorwr Sir. Roedd y Cynghorwyr yn gytûn a hyn.
PENDERFYNWYD: bod y Clerc yn ysgrifennu at y Cynghorwr Sir i ddweud fod Trefniadau Sefydlog Cyngor Cymuned Betws yn cael eu hystyried ar hyn o bryd ac fe fyddant yn delio gyda'i ohebiaeth yn fuan.

3.2 Mae'r ohebiaeth ganlynol wedi'i chydnabod a nodwyd y cynnwys.
1. Un Llais I Gymru.
• Llawlyfr Cynllunio.
• Cylchlythyr - Cynigodd y Cynghorwr Keith Rees i lungopïo'r cylchlythyr i'r Cynghorwyr.
• Garddwest Palas Buckingham.
2. Llywodraeth Cynulliad Cymru.
• Swm priodol o dan adran 137 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.
• Cynllun partneriaeth Llywodraeth Leol Adroddiad Blynyddol 2004 - 2005.
• Benthyca gan Gynghorau Cymuned a Thref: Caniatâd benthyca ar gyfer 2006 - 2007.
• Her Iechyd Cymru.
3. Clwb Criced Betws - Penderfynodd y Cynghorwyr fydd hyn yn cael ei drafod yn y Cyfarfod Cyllid ym Mis Mawrth 2006.
4. Dargyfeirio Llwybr Cyhoeddus 3/8.
5. Cylchlythyr Chwarae Cymru.
6. Grwp Aman o Gynghorau Lleol: Cofnodion ac Agenda.
7. Cyngor Sir Caerfyrddin: Rhaglen gofalu am y Llwybrau a'r llwybrau marchogaeth 2006/2007.
8. Gwahoddiad i gyfarfod y Bwrdd Iechyd Lleol - rhoddwyd i'r Cynghorwr Loreen Lewis.
9. Cynllun Datblygu Unedol Sir Gaerfyrddin.
10. Y Sianel Leol.

4. MATERION CYNLLUNIO.
4.1 Gohebiaeth a dderbyniwyd oddi wrth Gyngor Sir Caerfyrddin:
Mae'r plot sy'n gyfagos i 48 Heol Y Cyrnol, Betws yn cael ei hadnabod fel Swn Yr Adar, Betws, SA18 2HR.

4.2 Cytunwyd y cais isod gan Gyngor Cymuned y Betws:-
E/12114 - Newid ysgubor i dý, Llwyndu, Betws, Rhydaman.

4.3 Gwrthwynebwyd y cais isod gan Gyngor Cymuned y Betws:-
E/12063 - Iard Adeiladwyr marsiandwyr/Storio/Arwerthiant yn Uned 2 a 3 Heol Maescware, Betws, Rhydaman.

5. CYFRIFON.
1. Cynghorwr Peter Cowell £51.40

2. Cymdeithas Ymwelwyr Sir Gaerfyrddin £40.00
CYFANSWM £91.40
CYTUNWYD: I dalu'r biliau uchod.

6. ADRODDIAD HEDDLU DYFED POWYS.
Mynychodd PC Kevin Jones y cyfarfod ar ran Heddlu Dyfed Powys. Adroddodd fod yna 6 trosedd wedi'u cofnodi yn ardal y Betws ym mis Ionawr. Maent fel a ganlyn:-
1 niwed troseddol, 3 achos yn ymwneud â chyffuriau, 1 lladrad o gerbyd modur ac 1 anhrefn gyhoeddus. Ar hyn o bryd mae 4 trosedd wedi'u datrys.

Y canlynol yw pwyntiau blaenoriaeth y Cynghorwyr am fis Chwefror:-
• Cyflymder y traffig ar hyd Ffordd y Cyrnol.
• Ymweldiad â Ffarm Maes y Betws.
• Gatiau ym mharc y Betws.
NODWYD: y pwyntiau uchod.

7. ADRODDIAD Y CYNGHORWR SIR.
Adroddodd y Cynghorwr Sir John D Evans ar y materion canlynol:-
1. Safle Betws - adroddodd fod y Cyfarwyddwr Adfywio yn ceisio trefnu cyfarfod gyda'r gweithredwr i weld os bu yna gynnydd oddi ar yr ymweliad diwethaf ym mis Hydref 2005.
NODWYD: y pwynt uchod.
2. Taliadau Maes Parcio - dywedodd y Cyngorwr Sir wrth y Cynghorwyr fod Guardian De Cymru wedi adrodd ei sylwadau yn anghywir a'i fod yn erbyn unrhyw daliadau maes parcio.
NODWYD: y pwynt uchod.
3. Trefniadau Sefydlog Cyngor Cymuned y Betws - dywedwyd wrth y Cynghorwyr bod Trefniadau Sefydlog Cyngor Cymuned y Betws maes o ddyddiad. Awgrymodd y Cynghorwr Graham Vaughan fod is-grw^p yn cael ei sefydlu i edrych ar y Trefniadau Sefydlog.
PENDERFYNWYD: bod y Clerc yn ysgrifennu at Un Llais i Gymru i ofyn am gopi fodel o Drefniadau Sefydlog.

8. ADRODDIADAU.
8.1 Eisteddfod Genedlaethol.
Adroddodd y Cynghorwr Anne Sizmur fod yna gyfarfod yngly^n â'r Eisteddfod Genedlaethol ar y 17eg o fis Chwefror 2006.
NODWYD: y pwynt uchod.

8.2 Seminar Cynllunio.
Dywedodd y Cynghorwr Loreen Lewis wrth y Cynghorwyr fod y Cynghorwr Anne Sizmur a hi ei hunan wedi bod yn bresennol yn y Seminar Cynllunio diweddar.
Roedd y Cynghorwr Loreen Lewis wedi diweddaru'r Cynghorwyr ynglyn â hyn.
Yn nesaf dywedodd iddi dderbyn gohebiaeth oddi wrth Gyngor Sir Caerfyrddin yn dweud nad yw'r gwair yn cael ei gasglu pan fo'r gwair yn cael ei dorri oherwydd diffyg cyllid. Awgrymodd y Cynghorwr Delyth Richards fod y Cyngor Cymuned yn ysgrifennu at Gyngor Sir Caerfyrddin i ddweud fod y Cynghorwyr yn erbyn gadael y gwair yn y Parc ac yn cefnogi polisi ailgylchu. Hoffai'r cynghorwyr dderbyn esboniad gan y Cyngor Sir Caerfyrddin pan nid yw'r gwair yn cael ei gasglu er mwyn cael ei ailgylchu.
PENDERFYNWYD: bod y Clerc yn ysgrifennu at y Rheolwr Cynhaliaeth y Ddaear o Gyngor Sir Caerfyrddin.

9. UNRHYW FATER ARALL.
9.1 Betws yn ei Blodau.
Fe ofynnod y Cynghorwr Anne Sizmur os yw'r Cynghorwyr am barhau gyda'r gystadleuaeth am y flwyddyn hon. Roedd y Cynghorwyr yn ffafrio hyn. Penderfynwyd bod y Cynghorwr Anne Sizmur yn trefnu'r Gystadleuaeth Betws yn ei Blodau am 2006.
NODWYD: y pwynt uchod.

9.2 Cynllun Ailgylchu Bocs Glas.
Dywedwyd wrth y Cyngor bod plastig yn cael ei adael yn y bocs glas gan y lorri ailgylchu, ac mae rhaid mynd â’r plastig i’r banciau ailgylchu ein hunain. Cynigiodd y Cynghorwr Delyth Richards ac eiliodd y Cynghorwr Graham Vaughan fod y Clerc yn ysgrifennu at Gyngor Sir Caerfyrddin i holi os gall plastig gael ei ddodi mewn i'r bocs ailgylchu ac os na, a all hyn cael ei ychwanegu at gynllun ailgylchu’r bocs glas cynted â phosib..
PENDERFYNWYD: bod y Clerc yn ysgrifennu at Gyngor Sir Caerfyrddin.